

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A489 (HEOL
MAENGWYN, MACHYNLLETH) (GWAHARDD
AROS) 202-**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 1(1), 2(1) a 2(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd aros ar ochrau'r darnau o gefnffordd yr A489 Caersŵs i Fachynlleth o'r enw Heol Maengwyn, Machynlleth yn Sir Powys, fel y'u pennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Mae gwahanol esemptiadau i'r gwaharddiad hwn.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 28 Hydref 2022 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn a'r Plan, yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau agor arferol yn Llyfrgell Machynlleth, Heol Maengwyn, Machynlleth, SY20 8DY. Gellir hefyd gael copïau yn rhad ac am ddim oddi wrth Lywodraeth Cymru naill ai drwy ysgrifennu at: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ neu drwy anfon e-bost i Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1494972.

Os yw unrhyw berson yn dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn, neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo, ar y seiliau:

- nad yw o fewn pwerau perthnasol Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984; neu
- na chydymffurfiwyd ag unrhyw un neu ragor o'r gofynion perthnasol,

caiff y person hwnnw, o fewn 6 wythnos i 28 Hydref 2022, wneud cais i'r Uchel Lys i atal dros dro neu ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo.

Gellir gweld copi o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn, Plan a Datganiad o'r Rhesymau ar wefan Llywodraeth Cymru ar <https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd> a/neu eu cael mewn print bras yn rhad ac am ddim drwy ysgrifennu at: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1494972.



J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A489 TRUNK ROAD (HEOL
MAENGWYN, MACHYNLLETH)
(PROHIBITION OF WAITING) ORDER 202-**

The Welsh Ministers have made an Order in exercise of their powers under sections 1(1), 2(1), and 2(2), of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The effect of the Order will be to prohibit waiting on the sides of the lengths of the A489 Caersws to Machynlleth trunk road known as Heol Maengwyn, Machynlleth in the County of Powys, as specified in the Schedule to this Notice. There are various exemptions to this prohibition.

During a period of 6 weeks from 28 October 2022, a copy of the Order and, may be inspected, free of charge, during normal opening hours at Machynlleth Library, Heol Maengwyn, Machynlleth, SY20 8DY. Copies may also be obtained free of charge from the Welsh Government either by writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ or by emailing Transportordersbranch@gov.wales quoting reference number qA1494972.

If any person desires to question the validity of the Order, or of any provisions contained therein on the grounds:

- that it is not within the relevant powers of the Road Traffic Regulation Act 1984; or
- that any of the relevant requirements have not been complied with,

that person may, within 6 weeks of 28 October 2022, apply to the High Court for the suspension or quashing of the Order or of any provision contained therein.

A copy of this Notice, the Order, Plan and Statement of Reasons can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders> and/or obtained in larger print free of charge by writing to Welsh Government, Orders Branch, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ quoting reference number qA1494972.



J SADDLER
Transport
Welsh Government

YR ATODLEN

Y darnau o'r gefnffordd lle y gwaherddir aros

1. Y darn o ochr ogleddol y gefnffordd o'r enw Heol Maengwyn, Machynlleth sy'n ymestyn o bwynt 45 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Heol y Garth hyd at bwynt 95 o fetrau i'r dwyrain o'r gyffordd honno.

2. Y darn o ochr ddeheuol y gefnffordd o'r enw Heol Maengwyn, Machynlleth sy'n ymestyn o bwynt 44 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Forge Road hyd at bwynt 82 o fetrau i'r dwyrain o'r gyffordd honno.

SCHEDULE

Lengths of trunk road on which waiting is prohibited

1. The length of the north side of the trunk road known as Heol Maengwyn, Machynlleth which extends from a point 45 metres east of the centre point of its junction with Garth Road to a point 95 metres east of said junction.

2. The length of the south side of the trunk road known as Heol Maengwyn, Machynlleth which extends from a point 44 metres east of the centre point of its junction with Forge Road to a point 82 metres east of that said junction.